MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

NEWYDDLEN HAF 2009

IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES

Croeso i Newyddlen Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles rhifyn yr Haf ar gyfer y sector wirfoddol. Pwrpas y Newyddlen yma yw rhannu a chyflwyno gwybodaeth berthnasol ym maes iechyd, gofal a lles. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau mae croeso i chi gysylltu â ni ym

Mantell Gwynedd, 24-26 Stryd Fawr, Caernarfon LL55 1RH
☎ 01286 672626 Ffacs: 01286 678430
neu sioned@mantellgwynedd.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

NEWYDDION:

Diwygio'r GIG - Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bydd y Bwrdd Iechyd newydd uchod yn weithredol yn llawn o Hydref y 1af 2009 a bydd yn darparu gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru i thua 675,000 o unigolion gyda chyllideb oddeutu £1.1 biliwn. Mae nifer o swyddogion bellach wedi eu penodi i'w swyddi ac mae Dr Lyndon Miles (Cadeirydd Bwrdd Iechyd Gwynedd a Chonwy) wedi ei benodi yn Is Gadeirydd.

Rydym yn symud i gyfnod newydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn cynnig her a sialensau gwahanol i fudiadau a sefydliadau. Mae gan y trydydd sector rôl allweddol yn hybu iechyd a lles unigolion yn ein cymunedau yn arbennig ym maes ataliol ac ymyrraeth buan. Mae'r sector yn aml yn cynnig cefnogaeth a chymorth ar amseroedd tyngedfennol i unigolion a'u gofalwyr sy'n gallu eu harbed rhag mynd yn wael yn y lle cyntaf ac yn ddibynnol ar wasanaethau eraill. Pe byddai'r gwasanaethau yma'n cael eu dileu yna yn sicr fe fydd mwy o bwysau yn cael ei roi ar wasanaethau iechyd a gofal eraill.

Mae yna gydnabyddiaeth yn gyffredinol i werth y trydydd sector gan gyrff statudol ond nid gwasanaethau rhad ac am ddim mohonynt – bydd **rhaid sicrhau adnoddau digonol** i'w cynnal a'u trin fel partner cyfartal. Gobeithio y bydd yr ail strwythuro ac ail gynllunio gwasanaethau yn ein cymunedau yn rhoi cyfleoedd newydd i'r sector i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol sy'n werth am arian i ddiwallu anghenion ein cymunedau yng Ngwynedd.

Cynllun Iechyd Gwledig - darparu gwasanaethau yn well ar draws Cymru

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymchwilio i'r ffyrdd mwyaf creadigol o ddarparu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol mewn ardaloedd gwledig.

Y tair thema allweddol sydd wedi dod i'r amlwg yw:

- mynediad at wasanaethau
- yr angen a chyfleoedd i gyfuno gwasanaethau
- cydlyniant a chyfranogiad cymunedol.

Bydd y cyfnod ymgynghori'n para tan dydd Gwener **21 Awst 2009.**

Am gopi o'r Ddogfen yma sy'n bwysig ac yn berthnasol iawn i sir fel Gwynedd ewch ar wefan Mantell Gwynedd **www.mantellgwynedd.com/cym/manylionC.asp?ID=817** neu cysylltwch â Sioned ar **sioned@mantellgwynedd.com**

Y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles

Lansiwyd Cynllun Gweithredu y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles ar gyfer Cymru yn ddiweddar a'r nod yw gwella'r dealltwriaeth o beth yw rôl y celfyddydau mewn iechyd a lles, cefnogi datblygiad mentrau celfyddydau ac iechyd drwy wybodaeth ac arweiniad. Mae'r pum prif faes yn cynnwys:

- Y Celfyddydau ac Iechyd a Lles y Cyhoedd
- Celfyddydau Cymunedol ac Iechyd a Lles
- Y Celfyddydau mewn Dyniaethau a Gofal Iechyd
- Y Celfyddydau mewn Lleoliadau Gofal Iechyd
- Proffesiynau Therapïau Celf

Am gopi o'r Cynllun ewch ar **www.celfcymru.org.uk**

WWW: GWEFANNAU DEFNYDDIOL:

www.healthyworkingwales.com/loginpage welsh.php - gwefan "Cymru Iach ar Waith" i gynorthwyo cyflogwyr, gweithwyr cyflogedig a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd i wella iechyd yn y gwaith, atal afiechyd a chynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o salwch.
www.ccwales.org.uk - Cyngor Gofal Cymru.
www.healthcarealliance.co.uk - Hyfforddiant ac Ymgynghori ar gyfer y GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sector Wirfoddol.
www.gwynedd.gov.uk/datblygugweithlu - rhestr o sesiynau hyfforddi a gynigir gan Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gwynedd yn 2009/10. Cofiwch hefyd am Wefan Mantell Gwynedd - **www.mantellgwynedd.com** i gael gwybodaeth helaeth am grantiau, hyfforddiant, gwirfoddoli, mudiadau, materion iechyd, gofal a lles ayb.

Syniadau am Ffynonellau Cyllid Posibl:

Cronfa Ewch Amdani – Mantell Gwynedd (Cynllun Peilot)
Hybu gweithgareddau corfforol yng Ngwynedd. Am becyn cais a manylion pellach cysylltwch â Delyth Vaughan ar **01286 672626** neu **delyth@mantellgwynedd.com**

Galluogi Gwynedd – Cronfa Cyfalaf 2008-2011 (Mantell Gwynedd)
Mae'r gronfa'n anelu i ddatblygu prosiectau a syniadau newydd, codi cynhwysedd, gwella ac adnewyddu cyfleusterau ac adeiladau cymunedol gan sicrhau mynediad i bawb a thrwy hynny adfywio cymunedau. Grantiau rhwng £500 hyd at £10,000 ar gael.

Dyddiadau cau: Medi 30 2009; Rhagfyr 31 2009
Am fwy o wybodaeth a Ffurflen Gais cysylltwch â'r Swyddog Grantiau ar **01286 672626** neu **delyth@mantellgwynedd.com**

Cronfa Arian i Bawb
Nod Arian i Bawb Cymru yw ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol. Os ydych chi'n grŵp lleol a'ch bod chi angen rhwng **£500 a £5,000,** mae'n bosibl y bydd Arian i Bawb Cymru yn gallu eich helpu chi. Mae ffurflenni a nodiadau arweiniad ar gael o'r wefan yma **www.cronfaloterifawr.org.uk** neu ffoniwch **0845 4 10 20 30** am gyngor.

Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp
Cronfa ar gyfer elusennau cofrestredig bach yng Nghymru a Lloegr sydd â gwariant blynyddol o lai na £60,000. Mae grantiau ar gael ar gyfer gwaith gyda: henoed; plant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed; pobl ag anableddau, problemau iechyd meddwl; camddefnyddio sylweddau ayb. Darperir grantiau hefyd i gefnogi gwaith elusennau ym maes addysg a dysgu (gan gynnwys dysgu gydol oes). Am fwy o wybodaeth ewch ar **www.yappcharitabletrust.org.uk**

Trusthouse Charitable Foundation
Cynigir grantiau mawr a bach gan yr uchod; mae'r blaenoriaethau yn cynnwys gofal iechyd, anableddau, cefnogaeth gymunedol, addysg a chelf. Am fwy o wybodaeth ewch ar eu gwefan **www.trusthousecharitablefoundation.org.uk**

Ffliw Moch

Am wybodaeth ddiweddaraf a chanllawiau gweithredu am y Ffliw Moch ewch ar y wefan yma **http://new.wales.gov.uk/topics/health/?lang=cy**

Lansio Siarter Urddas mewn Gofal

Mae'r Siarter uchod a lansiwyd yn ddiweddar yn mynd i'r afael â phedwar maes yn benodol:

- Dangos Parch
- Preifatrwydd
- Hunan Barch
- Annibyniaeth

Er mwyn pwysleisio'r neges mae cardiau Her Urddas wedi eu hargraffu a fydd yn cael eu dosbarthu i gartrefi preswyl, staff gofal a theuluoedd pobl sy'n derbyn gofal. Mae'r cardiau yn amlinellu'r siarter ac yn atgoffa pobl o'u hawliau.
Am gyflenwad o'r cardiau yma cysylltwch â Lowri Evans ar **01286 679065** neu **LowriHafEvans@gwynedd.gov.uk**

DYDDIADAU I'W RHOI YN Y DYDDIADUR!

Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
Hydref 10
Ffederasiwn Iechyd Meddwl y Byd
www.wfmh.org/wmhday

Wythnos Plant a Phobl Ifanc
Tachwedd 16-20 – am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Ann Vaughan Jones ym Mantell Gwynedd
annvaughan@mantellgwynedd.com